Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 707A2014

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan KPMG ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14, ond wrth wneud hynny, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 11 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i weithredu ei chynlluniau arbed i fynd i'r afael â'r her sylweddol a pharhaus o fantoli'r gyllideb, gan gynnal darpariaeth gwasanaeth ar yr un pryd | 11 |
| Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu a sicrwydd y bwrdd yn gadarn ar y cyfan, ac fe gafwyd rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â meysydd i'w datblygu a amlygwyd yn ein hadroddiad diwethaf, ond mae angen gwneud gwaith datblygu pellach er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy a gwella gwasanaethau | 14 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â llawer o'r meysydd eraill a nodwyd i'w datblygu yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae heriau'n bodoli o hyd | 18 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r risgiau strategol allweddol sy'n deillio o Raglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans, ond mae ganddi fwy o waith i'w wneud er mwyn pennu'r risgiau gweithredol yn llawn a'r camau i'w lliniaru | 19 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 20 |
| Ffi archwilio | 21 |
| Risgiau archwilio sylweddol | 22 |

# Adroddiad cryno

**1.** Rhydd yr adroddiad hwn grynodeb o'm canfyddiadau o'r gwaith archwilio a gwblhawyd gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2014.

**2.** Mae'r gwaith yr wyf wedi'i gyflawni yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**3.** Yn fy ngwaith archwilio, canolbwyntiais ar flaenoriaethau strategol, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 8 Ionawr 2015. Yn dilyn hynny, caiff ei gyflwyno gerbron cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, a darperir copi ohono i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn yn gryf y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**5.** Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

**6.** Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio.

Mae a wnelo'r materion hyn â'r canlynol:

- Targedau ariannol allweddol
- Perfformiad ariannol 2013-14
- Addasu naratif a chyflwyniadau
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth

**7.** Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- bod gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad.

**8.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged statudol i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Yn fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, archwiliais gadernid trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth a digonolrwydd ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys trefniadau i gynllunio'n effeithiol a mesur cynnydd gyda threfniadau a llywodraethu ansawdd ers y llynedd. Rwyf hefyd wedi adolygu'r trefniadau i gefnogi defnydd da o adnoddau fel rhan o waith yr Asesiad Strwythuredig, sy'n cael ei lywio gan waith archwilio perfformiad ar feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ar sail y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i weithredu ei gynlluniau arbed i fynd i'r afael â'r her sylweddol a pharhaus o fantoli'r gyllideb, gan gynnal darpariaeth gwasanaeth ar yr un pryd

**10.** Er i'r Ymddiriedolaeth dderbyn cyllid ychwanegol yn 2013-14, cofnododd ddiffyg bychan erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**11.** Ym mis 7 yn 2014-15, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd diffyg o £3.6 miliwn, ac wedi nodi nad yw'r £0.1 miliwn o arian dros ben a gynlluniwyd yn debygol o gael ei wireddu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld diffyg o £8.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

### Mae trefniadau i gefnogi llywodraethu a sicrwydd y bwrdd yn gadarn ar y cyfan, ac fe gafwyd rhywfaint o gynnydd er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a amlygwyd yn fy adroddiad diwethaf, ond mae angen gwneud mwy o waith datblygu er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy a gwasanaethau gwell

**12.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, yn rhan o'i Rhaglen Drawsnewid Strategol. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig i'r Ymddiriedolaeth, ond mae diffyg eglurder ynghylch gofynion comisiynu yn y dyfodol yn llesteirio'r broses o ddatblygu cynlluniau cadarn a realistig ar gyfer y gweithlu, asedau ac agweddau clinigol.

**13.** Mae strwythurau llywodraethu newydd a ddatblygwyd i hyrwyddo trawsnewid yn dal i ymsefydlu. Mae cynnydd y gwaith i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth yn arafach nag a gynlluniwyd, ond mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

**14.** Mae'r fframwaith sicrwydd cyffredinol a'r rheolaethau mewnol yn gadarn ac wedi'u cefnogi gan drefniadau craffu effeithiol ar y Bwrdd ac mewn pwyllgorau.

**15.** Mae fframwaith rheoli perfformiad newydd yn cael ei ddatblygu gan gynnwys trefniadau gwell ar gyfer adrodd wrth uwch reolwyr a'r Bwrdd. Gellid gwella'r trefniadau adrodd ymhellach drwy wneud mwy o waith meincnodi, drwy sicrhau rhagolygon cliriach o berfformiad a thrwy gynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar sut i gyflwyno adroddiadau mwy amserol oddi mewn i'r fframwaith adrodd cenedlaethol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â llawer o'r meysydd eraill a nodwyd i'w datblygu yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae heriau'n bodoli o hyd

**16.** Yn ôl fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â rhai meysydd i'w datblygu a nodwyd yn adroddiad y llynedd, yn gysylltiedig â chapasiti uwch reolwyr, datblygu polisïau newydd ar gyfer y gweithlu a meithrin

perthnasoedd â phartneriaid. Mae ganddi waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod ei chynlluniau ar gyfer y gweithlu'n addas i'r diben ac wedi'u gweithredu, a'i bod yn dysgu cymaint ag sy'n bosibl o adborth defnyddwyr gwasanaeth, bod adroddiadau ar berfformiad yn amserol ac wedi'u gosod yn eu cyd-destun drwy gymharu â darparwyr gwasanaeth eraill, a bod fframwaith comisiynu effeithiol yn cael ei ddatblygu ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

**17.** Rydym yn cydnabod ac yn ddiolchgar am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**18.** Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Ymddiriedolaeth, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a gyflawnais rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.

**19.** Cyflawnir fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; ac
- **c)** fy modloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**20.** Mewn perthynas ag (c), yr wyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

**21.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

**22.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon; ac
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**23.** Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

**24.** I gloi, yn Atodiad 3 nodir y risgiau sylweddol o ran archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**25.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifoedd arian. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol er mwyn dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.

**26.** Wrth ystyried datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm..

**27.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**28.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny fodd bynnag, dygais rai materion ac arsylwadau i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio

### Cafodd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**29.** Ni chefais unrhyw anawsterau sylweddol wrth gynnal yr archwiliad. Darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ni yn brydlon, ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

**30.** Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 29 Mehefin 2014. Ceir crynodeb yn Arddangosyn 1 o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Dyledwyr yr Uned Adfer Iawndal (UAI) | Rydym yn argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth ddechrau rhannu dyledwyr eu UAI yn ddyledwyr cyfredol ac anghyfredol lle bo modd, er mwyn cael eu darlun gorau o'r dyledion sydd yn debygol o fod yn dderbyniadwy o fewn 12 mis. |

**31.** Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2014, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae fy sylwadau ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol wedi'u nodi yn Arddangosyn 2 isod.

Arddangosyn 2: Materion a nodwyd wrth adolygu Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Llunio Adroddiad blynyddol | Penderfynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr newid fformat Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'w wneud yn fwy perthnasol, deinamig a darllenadwy. Nid oedd y fersiwn gyntaf o'r adroddiad hwn, a anfonwyd i'w adolygu gan KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru, yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran ei gynnwys, gan mai drafft cynnar ydoedd a gyhoeddwyd i ddangos y newidiadau arfaethedig i'r fformat i aelodau'r Pwyllgor Archwilio.<br>Adlewyrchai'r fersiwn derfynol ofynion y canllawiau, yn dilyn mewnbwn helaeth gan KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru. O hyn allan, argymhellir bod digon o amser a lefel briodol o adnoddau'n cael eu neilltuo er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno newidiadau sylweddol i ddogfennau cyhoeddedig. |

**32.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd a ddelir ar gyfer ymddiriedolaethau wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ond nid ydym wedi nodi unrhyw faterion y mae angen adrodd amdanynt i'r Pwyllgor Archwilio. Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ar 19 Tachwedd 2014. Fe'u llofnodwyd gan swyddogion ym mis Rhagfyr 2014 a'u llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 8 Ionawr 2015.

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol. Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli mewn modd priodol ac yn gweithredu'n unol â'r bwriad

**33.** Adolygais amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth drwy asesu trefniadau rheolaeth yr Ymddiriedolaeth dros y prif systemau ar gyfer rheolaeth gyllidebol a chyfrifyddu. Ni nodais unrhyw wendidau o bwys yn eich rheolaethau mewnol a nodais fod y rheolaethau'n gweithredu'n unol â'r bwriad ac yn creu sail ddibynadwy er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol. Byddaf yn adrodd ynghylch y rhain os nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt, neu os gallent fod yn symptom o wendidau ehangach yn yr amgylchedd cyffredinol o ran rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd llai pwysig i'w gwella yn ystod yr archwiliad. Mae argymhellion wedi cael eu cyflwyno i'r rheolwyr er mwyn ymdrin â'r rhain, a chamau priodol wedi'u cytuno.

**34.** Yn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru casglwyd bod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bwriadu darparu gwasanaeth Cymru gyfan sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

**35.** Mae'r gwaith yr wyf wedi'i gyflawni'n cefnogi fy marn ar y datganiadau ariannol, ac nid yw'n cynrychioli asesiad archwilio mewnol yn unol â'r Safonau. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'r trefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae hyn yn mynd ymhellach na'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr allanol i osod dibyniaeth ar waith archwilio mewnol, neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau cydbwysedd ariannol statudol ar ddiwedd 2013-14, ar ôl derbyn cyllid ychwanegol gan Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, a sicrhau arbedion

**36.** Ar ddechrau'r flwyddyn, nododd yr Ymddiriedolaeth bwysau o ran costau o £13.7 miliwn. Roedd £7.5 miliwn o'r costau hyn wedi'u hariannu drwy gyllid ychwanegol gan Fyrddau Iechyd, a ddarparwyd drwy Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, a'r gweddill wedi'i ariannu'n fewnol.

**37.** Cafwyd cynnydd o £2.5 miliwn mewn costau staff, a hynny'n bennaf oherwydd codiad cyflog o un y cant yn ystod y flwyddyn. Gosodwyd hyn yn erbyn y gostyngiad o £5.6 miliwn mewn diffygion a achosodd ostyngiad o £3.1 miliwn i gyfanswm y costau gweithredu.

**38.** Cafodd £414,000 o incwm ei gynhyrchu drwy werthu asedau a ddaliwyd i'w gwerthu.

**39.** O gymharu â chyllideb 2013-14 (yn seiliedig ar yr un lefel o gyllid cylchol, ac felly gan hepgor y £7.5 miliwn o gyllid ychwanegol) cafwyd gorwariant gan yr Ymddiriedolaeth o £7.6 miliwn yn ystod y flwyddyn, yr oedd £5.8 miliwn ohono'n gysylltiedig â chostau staff. I raddau helaeth, cafodd y gwariant hwn ei glirio drwy'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, ac adroddodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £112,000 yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2014.

**40.** Gan fod diffyg wedi'i greu yn 2013-14, roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi cynllun adfer ariannol (CAA) er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol yng nghyswllt mantoli'r gyllideb. Cafodd y CAA ei gymeradwyo gan Brif Weithredwr GIG Cymru ym mis Mehefin 2014. Ceir mwy o fanylion am dargedau ariannol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**41.** Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd; ac
- asesu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol o ran gwasanaeth arlwyo'r ysbyty ac adolygu'r trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.

**42.** Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i weithredu ei gynlluniau arbed i fynd i'r afael â'r her sylweddol a pharhaus o fantoli'r gyllideb, gan gynnal darpariaeth gwasanaeth ar yr un pryd

### Er i'r Ymddiriedolaeth gofnodi diffyg bychan erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, cyrhaeddodd ei dargedau ariannol ar ôl derbyn cyllid ychwanegol yn 2013-14

**43.** Ym mis Mawrth 2013, canfu'r Ymddiriedolaeth fwlch o £13.7 miliwn rhwng cyllid yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14, a'r amcangyfrifon gorau o'r pwysau o ran costau a'r costau a gynlluniwyd ar gyfer datblygu gwasanaethau. Yn ôl asesiad yr Ymddiriedolaeth, roedd ganddi £5.7 miliwn o bwysau posibl mewn costau yr oedd wedi'u profi yn y gorffennol. Roedd cyfran o'r costau hyn y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth i raddau helaeth, ac nid oedd modd eu hariannu o'u dyraniad refeniw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cost trosglwyddo rhwng/o ysbytai;
- cynnydd yn y galw fydd yn golygu bod angen mwy o adnoddau staff; a
- thalu am absenoldeb salwch.

**44.** Er iddi sicrhau £7.5 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu cryn her wrth geisio cyrraedd ei tharged i fantoli'r gyllideb. Ar 31 Mawrth 2014, cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg bychan o £0.1 miliwn.

**45.** Yn ôl deddfwriaeth, mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG fantoli'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol. Diffinnir hyn fel cael gwarged neu ddiffyg sydd oddi mewn i drothwy materoldeb o £0.5 miliwn neu 0.5 y cant o incwm gweithredu. Os yw'r Ymddiriedolaeth oddi mewn i'r terfyn materoldeb hwn, ni cheir unrhyw achos o dorri dyletswydd statudol os caiff unrhyw ddiffyg ei adfer drwy danwariant tebyg yn 2014-15, neu os oes ganddo ddigon o adnoddau i dalu am unrhyw ddiffyg. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi ymgorffori'r diffyg hwn yn ei chynlluniau ariannol ar gyfer 2014-15, a oedd yn ariannol gytbwys ac wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2014. Ym mis Mehefin 2014, enillodd yr Ymddiriedolaeth gymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer

y cynlluniau hyn gan Lywodraeth Cymru, ac roedd felly'n bodloni ei thargedau gofynnol i fantoli'r gyllideb bryd hynny.

**46.** Mae gallu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei chynlluniau arbed, a'i gallu i gadw oddi mewn i gyllidebau targed, wedi effeithio ar ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Ym mis Ionawr 2014, roedd a wnelo gorwariant yn erbyn cyllideb 2013-14 yn bennaf â:

- Gorwariant cyffredinol o £6.1 miliwn ar gostau staff, gan gynnwys gwariant goramser o £7.3 miliwn. Mae salwch, y galw am wasanaethau ac oedi wrth drosglwyddo wedi effeithio ar lefel y goramser sydd ei hangen i gynnal darpariaeth gwasanaeth.
- Ym mis Tachwedd 2013, roedd costau nad oeddent yn gysylltiedig â chyflogau £2.7 miliwn yn uwch na'r gyllideb, a hynny oherwydd costau cynnal fflyd uwch nag a gynlluniwyd, a chynnydd yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd preifat a gwariant gweithredu clinigol er mwyn cynnal gwasanaethau.

**47.** Ar ôl hepgor y pwysau o £5.7 miliwn mewn costau a gafwyd yn y gorffennol, ac a nodwyd uchod, nododd yr Ymddiriedolaeth fod angen sicrhau £8 miliwn yn ychwanegol o arbedion yn 2013-14, yr oedd £6.1 miliwn ohonynt eisoes wedi'u sicrhau. Roedd cynlluniau arbed yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn deillio o fentrau ar gyfer moderneiddio'r gweithlu a moderneiddio gweithredol. Nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gallu gwneud cynnydd sylweddol gyda'r agenda foderneiddio, ac mae'r pwysau oherwydd y galw a nodwyd uchod wedi cynyddu'r pwysau ar gostau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd diffyg ym mis 7 o £3.6 miliwn, gan ragweld diffyg o £8.5 miliwn ar gyfer diwedd y flwyddyn yn erbyn gwarged cynlluniedig o £0.1 miliwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn rhan o'i Rhaglen Drawsnewid Strategol

**48.** Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n adlewyrchu cynlluniau ac amcanion cyflawni tymor hwy sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd sy'n canolbwyntio ar gleifion mewn modd diogel a chynaliadwy. Cynllun treigl tair blynedd yw'r Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau, y gweithlu a phenderfyniadau ynghylch cyllid. Mae'n rhaid cyflwyno'r cynlluniau hyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog), a sicrhau cymeradwyaeth y Gweinidog ar eu cyfer, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.

**49.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'n cydnabod mai dangosol yw'r cynlluniau arbed tymor hwy yn ei rhaglen drawsnewid ar hyn o bryd, a bod angen gweithio arnynt yn fanylach. Rhaglen Drawsnewid Strategol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ffrwd waith Defnydd o Adnoddau a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh. Mae'r prosiect hwn yn cynrychioli gwaith graddfa fawr i'r Ymddiriedolaeth o ran canfod arbedion effeithlonni a gwelliannau i wasanaethau, gan gynnwys adolygiad o Ganolfannau Cyswllt Clinigol a Chanolfannau Gweinyddol.

**50.** Mae cynlluniau a phrosiectau arbed blynyddol yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol, sef deiliaid cyllideb, yr adran gyllid a'r tîm gweithredol. Cynhelir proses asesu risg a chymeradwyo ar gyfer cynlluniau arbed a datblygiadau, sy'n cynnwys asesiadau effaith ansawdd a diogelwch darpariaeth weithredol.

**51.** Nododd yr Ymddiriedolaeth fod angen cyflawni cynlluniau arbed gwerth £7.6 miliwn yn 2014-15 er mwyn sicrhau gwarged o £0.1 miliwn i'r gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau arbed 2014-15

yn canolbwyntio ar foderneiddio'r gweithlu, a dim ond llond llaw sydd wedi'u dosbarthu'n arbedion 'heb eu nodi' neu 'heb eu dyrannu', o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Mae'r cynlluniau arbed yn cynnwys:

- Arbedion cyflenwi gwasanaethau, £5.3 miliwn
- Arbedion Cyllid a TGCh, £0.8 miliwn

Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi y bydd oedi gormodol wrth drosglwyddo'n amharu ar yr arbedion effeithlonni y gellir eu sicrhau drwy adolygu rotas.

**52.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu her sylweddol yn 2014-15 i gyflawni ei dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb ac ad-dalu'r diffyg o £0.1 miliwn a gafwyd y llynedd. Ym mis 7, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd diffyg o £3.6 miliwn, yn bennaf oherwydd:

- gorwariant o £1.2 miliwn ar gyflogau yn erbyn y gyllideb, o ganlyniad i ofynion goramser parhaus er mwyn cynnal perfformiad gweithredol, a salwch mewn swyddi gweithredol; a
- gorwariant o £2.5 miliwn nad yw'n gysylltiedig â chyflogau ar gyfer y cyfnod; o hyn, roedd a wnelo £1.2 miliwn â gorwariant ar wasanaethau gofal iechyd preifat megis Ambiwlans Sant Ioan, er mwyn cynnal gwasanaethau gweithredol.

**53.** Adroddir perfformiad gwirioneddol yn erbyn cynlluniau arbed wrth y Bwrdd ar lefel uchel, gan roi eglurhad clir o'r canlyniadau gwirioneddol yn erbyn cynlluniau arbed wedi'u proffilio. Mae'r cynlluniau/prosiectau arbedion lefel uchel hefyd wedi'u cynnwys mewn atodiad i'r adroddiad Cyllid. Fodd bynnag, ni adroddir ar berfformiad gwirioneddol yn erbyn prosiectau arbed unigol, ac ni roddir unrhyw sylwebaeth ar gynnydd cynlluniau arbed allweddol megis yr adolygiad rotas. Argymhellir y dylai'r Ymddiriedolaeth wella'i hadroddiadau ariannol er mwyn rhoi sylwebaeth reolaidd fydd yn galluogi'r Bwrdd i herio mewn modd priodol a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael.

**54.** Adroddodd yr Ymddiriedolaeth amrywiant niweidiol o £1.7 miliwn yn erbyn arbedion a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod hyd 31 Hydref 2014 (£4.4 miliwn oedd yr arbedion a gynlluniwyd hyd fis 7). Dyma oedd y prif amrywiannau:

- ni chafwyd unrhyw arbedion yn sgil adolygu rotas y staff hyd fis Hydref 2014, yn erbyn targed o £2.0 miliwn, er bod proffil yr arbedion yn cael ei newid gan fod y prosiect o natur fwy cymhleth na'r cyffredin;
- amrywiant cadarnhaol o £0.3 miliwn yn gysylltiedig ag incwm adennill TAW; ac
- adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau arbedion eraill ar y trywydd iawn.

**55.** Mae prif brosiectau cyfalaf yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys uwchraddio'r fflyd a phrynu cerbydau newydd - £4.3 miliwn, sawl cynllun i uwchraddio ac ailwampio gorsafoedd - £1.5 miliwn, a chynllun Canolfan Adnoddau Gwasanaethau Ambiwlans a Thân Wrecsam. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau na fydd ei ffocws yn gwyro oddi wrth brosiectau cyfalaf allweddol sy'n cefnogi cyflenwi gweithredol. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod digon o adnoddau, ac adnoddau priodol, yn cael eu dyrannu i brosiectau fel adnewyddu'r fflyd er mwyn sicrhau bod y prosiectau hynny'n cael eu cyflawni'n unol â'r gyllideb ac yn addas i'r diben.

## Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu a sicrwydd y bwrdd yn gadarn ar y cyfan, ac fe gafwyd rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â meysydd i'w datblygu a amlygwyd yn ein hadroddiad diwethaf, ond mae angen gwneud gwaith datblygu pellach er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy a gwella gwasanaethau

**56.** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, ac wedi'i chyflwyno o dan y themâu canlynol:

- cynllunio strategol;
- strwythur trefniadol;
- sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol;
- rheoli perfformiad;
- rheoli gwybodaeth; a
- chynnydd wrth ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig newydd. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig i'r Ymddiriedolaeth, ond mae diffyg eglurder ynghylch gofynion comisiynu yn y dyfodol yn llesteirio'r broses o ddatblygu cynlluniau cadarn a realistig ar gyfer y gweithlu, asedau ac agweddau clinigol

**57.** Nid yw'r Ymddiriedolaeth hyd yma wedi cytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig â Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidog. Y rheswm rhannol am hyn yw diffyg eglurder ar ddechrau 2014 ynghylch y fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau ambiwlans, a diffyg capasiti cynllunio strategol o fewn yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu cynllun cadarn. Cynhyrchwyd Cynllun Cyflawni Blynyddol dros dro gan yr Ymddiriedolaeth, y cytunodd Llywodraeth Cymru arno, ac a gymeradwywyd gan y Gweinidog.

**58.** Mae'r fframwaith comisiynu ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans bellach ar waith, ac mae Comisiynydd Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans wedi cael ei benodi.
Fodd bynnag, mae'r trefniadau'n dal i ymsefydlu a manyleb i'r dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau ambiwlans yn dal heb ei llunio. Erbyn hyn, mae gan yr Ymddiriedolaeth arbenigedd a chapasiti cynllunio ychwanegol ar waith, neu yn yr arfaeth, yn sgil penodi Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Strategol ym mis Ebrill 2014, ac adnoddau staff ychwanegol er mwyn cynllunio a rheoli rhaglenni. Mae gan yr Ymddiriedolaeth amserlen fewnol ar waith i gytuno ar ei Chynllun Tymor Canolig Integredig erbyn mis Mawrth 2015. Mae hyn yn cynnwys sesiynau datblygu i'r Bwrdd er mwyn pennu gweledigaeth, amcanion strategol a model cyllid i'r dyfodol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

**59.** Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd yn ddogfen bwysig i'r Ymddiriedolaeth fydd yn egluro ei model busnes ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau i ymdrin â datblygiad asedau a'r gweithlu, a datblygiad clinigol, yn mynd rhagddynt ond yn ddibynnol ar ddealltwriaeth glir o ofynion busnes y dyfodol a gyflëir gan gomisiynwyr. Bydd unrhyw oedi wrth greu Cynllun Tymor Canolig Integredig cadarn yn amharu ar welliant yr Ymddiriedolaeth yn y meysydd datblygu allweddol hyn.

Mae strwythurau llywodraethu newydd a ddatblygwyd i hyrwyddo trawsnewid yn dal i ymsefydlu. Mae cynnydd y gwaith i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth yn arafach nag a gynlluniwyd, ond mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo

**60.** Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu newydd ym mis Ionawr 2014 er mwyn cefnogi ei rhaglen drawsnewid. Mae'r strwythur llywodraethu ffurfiol bellach yn cynnwys dau is-bwyllgor ffurfiol - y Pwyllgor Cyflenwi ac Ansawdd (PCA), sy'n goruchwylio cyflenwi ac ansawdd, a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio sicrwydd a rheolaeth ar risg. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu Bwrdd Trawsnewid Strategol (BTS), sef bwrdd rhaglen gweithredol sy'n adrodd wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Gan nad pwyllgor Bwrdd ffurfiol yw'r BTS, mae'n galluogi cynrychiolaeth gan bartneriaid allanol, megis Cyfarwyddwr Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Ambiwlans. Nod y strwythur llywodraethu newydd yw sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar gyflawni newid yn ogystal â'r swyddogaeth graffu angenrheidiol a ddarparwyd drwy'r strwythur blaenorol.

**61.** Mae'r strwythurau llywodraethu wedi bod ar waith ers sawl mis, ond nid yw cyfarwyddwyr anweithredol bob amser yn deall yn glir beth yw natur eu rôl ar y BTS, lle bydd nifer yn eistedd fel arsyllwyr, na'r llinellau adrodd drwy'r pwyllgorau ynghylch materion sy'n gysylltiedig â'r BTS. Mae'r Cadeirydd yn achub ar y cyfle i adolygu effeithiolrwydd trefniadau pwyllgorau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu strwythurau, amlder cyfarfodydd a'r cydbwysedd cymharol rhwng gwaith y pwyllgorau.

**62.** Cefnogir y BTS gan ffrydiau gwaith gweithredol sy'n gysylltiedig â thrawsnewid clinigol, datblygu'r gweithlu, gwasanaethau cludiant i gleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, a'r defnydd o adnoddau. Mae'r cynlluniau trawsnewid yn mynd rhagddynt, megis y Cynllun Braenaru Parafeddygon a mabwysiadu polisïau diwygiedig ar gyfer arferion gwaith, ond bu'r cynnydd yn arafach nag a gynlluniwyd gan fod capasiti uwch reolwyr wedi'i ymestyn i'r eithaf. Mae capasiti ychwanegol i reoli rhaglenni wedi cael ei sicrhau er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull ffurfiol o reoli rhaglenni sy'n defnyddio arfer gorau Llywodraeth y DU (Swyddfa Masnach y Llywodraeth) yn y fethodoleg 'Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus' (RhRhLl) Ceir lefel o sicrwydd a thrylwyredd i'r gwaith yn sgil hyn. Mae offeryn olrhain prosiectau a ddatblygwyd yn ddiweddar yn dangos bod 16 o brosiectau ar y trywydd iawn, pump heb fod ar y trywydd iawn, ac un prosiect wedi'i gwblhau o blith y 22 o brosiectau a gynlluniwyd eleni. Mae'r prosiectau Model Ymateb Clinigol ac Absenoldeb Salwch ymhlith y prosiectau allweddol sydd ar ei hôl hi.

**63.** Diwygiwyd strwythur y sefydliad yn 2012-13 er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng y penaethiaid gwasanaeth ac ardaloedd y byrddau iechyd. Cyflwynwyd gwelliannau pellach i'r trefniant eleni drwy gysoni portffolios y cyfarwyddwyr anweithredol ac ardaloedd y byrddau iechyd. Mae pob cyfarwyddwr anweithredol wedi cael y dasg o feithrin perthnasoedd ar lefel y bwrdd yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn fod hyn yn cefnogi perthnasoedd gwaith agosach ac yn datblygu dealltwriaeth ehangach o faterion yr Ymddiriedolaeth.

**64.** Amlygodd Arolwg Staff yn 2013 nad oedd y trefniadau ar gyfer cyfathrebu rhwng y staff a'r rheolwyr yn effeithiol. Ymateb yr Ymddiriedolaeth fu cyfathrebu'n fwy mynych â'r staff drwy friffiau tîm, drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy systemau negeseuo mewn cerbydau. Y mae hefyd wedi cyflwyno pecyn cymorth ymgysylltu i gefnogi rheolwyr.
Dengys arwyddion cynnar fod y staff yn gadarnhaol ynghylch y gwelliannau i'r llwybrau cyfathrebu.

65. Ceir atebolrwydd clir am gyflenwi. Fodd bynnag, bydd hi'n cymryd amser hir i roi rhai mentrau ar waith gan fod y capasiti neu'r cymhelliant i'w gweithredu yn aml yn brin ymhlith y rheolwyr. Er enghraifft, cafwyd oedi wrth ddefnyddio cydrannau hunanwasanaeth AD o fewn system TG newydd, gan nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith ar draws yr holl sefydliad, a thameidiog fu'r gwaith gan reolwyr i gwblhau offeryn olrhain argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth yn brydlon. Roedd y Bwrdd wedi cyfleu'n glir ei fod yn disgwyl i reolwyr gydymffurfio â systemau o'r fath.

### Mae'r fframwaith sicrwydd a'r rheolaethau mewnol yn gadarn ar y cyfan, ac wedi'u cefnogi gan drefniadau effeithiol i'r Bwrdd graffu arnynt

66. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd cymharol newydd, ond mae'r aelodau'n brofiadol, yn arddangos lefel dda o her ac mae rhaglen datblygu briodol ar waith. Cafodd grŵp newydd o gyfarwyddwyr anweithredol a chanddynt ystod o sgiliau priodol ei benodi i'r Ymddiriedolaeth ym mis Ebrill 2014. Darparwyd cwrs ymsefydlu deuddydd o hyd i'r cyfarwyddwyr anweithredol ac mae Rhaglen Datblygu'r Bwrdd ar waith sy'n cynnwys cymysgedd o sesiynau briffio a sesiynau i ddatblygu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth a'i chynlluniau i'r dyfodol.

67. Mae'r Bwrdd yn arddangos gweinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol. Mae'r Bwrdd newydd yn arddangos medrusrwydd a mewnwelediad, yn cefnogi rheolwyr gan barhau i gynnig her ac Mae'r Bwrdd eisoes wedi cael effaith drwy ddangos ei allu i wneud penderfyniadau anodd ar faterion hirhoedlog, megis cymeradwyo polisïau'n gysylltiedig â'r gweithlu, a phwyso i gwblhau camau fel gweithredu offeryn olrhain argymhellion archwilio.

68. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u cyfleu'n glir wrth aelodau'r Bwrdd, ac mae cynlluniau dirprwyo clir ar waith. Mae Fframwaith Atebolrwydd a ddrafftiwyd gan y Cadeirydd yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am bob rhan o'r busnes. Er enghraifft, mae'n pennu portffolios y cyfarwyddwyr anweithredol a'r modd y maent wedi'u halinio â chyfrifoldebau gweithredol. Gosodwyd amcanion i bob cyfarwyddwr anweithredol sy'n cefnogi amcanion eu Cyfarwyddwr cyfatebol.

69. Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn gwybodaeth reoli o ansawdd da i gefnogi gwaith craffu ac yn sail wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Adroddiad Integredig ar Berfformiad (AIB) sy'n gynhwysfawr ac yn hawdd ei ddeall. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn fisol gerbron y PCA a'r Bwrdd, gan ddarparu ymdriniaeth dda â gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth gryno a chlir am ansawdd a diogelwch gwasanaethau a pherfformiad ariannol. Dangosir peth o'r wybodaeth am berfformiad, fel amseroedd ymateb y gwasanaethau ambiwlans, fesul gorsaf fel bo modd cynnal cymhariaeth fewnol, ac mae tueddiadau'r 12 mis blaenorol yn dangos sut mae perfformiad wedi newid dros amser. I gefnogi'r AIB, ceir adroddiadau manylach ar rai agweddau ar fusnes yr Ymddiriedolaeth, fel cyllid. Yn ddiweddar, datblygwyd Offeryn Olrhain Gwelliannau Ansawdd sy'n dangos cynnydd prosiectau trawsnewid corfforaethol. Bu darparu 'adroddiadau cyflym' bob pedair awr ar berfformiad gweithredol o gymorth i'r rheolwyr er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y gwasanaethau ambiwlans yn ystod cyfnod dwys o reoli perfformiad dros yr haf, yn gysylltiedig ag amseroedd ymateb y gwasanaethau ambiwlans. Adroddir dadansoddiad o gwynion defnyddwyr gwasanaeth, a'r ymdriniaeth â'r cwynion hynny, yn rheolaidd wrth aelodau'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diwygio ei thempled adroddiadau er mwyn sicrhau bod ansawdd adroddiadau'n fwy cyson, ac mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion er mwyn gwella perfformiad.

**70.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac iddi strwythur da, a dealltwriaeth o'r risgiau strategol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Fodd bynnag, nid yw'r systemau sy'n sail i'r trefniadau rheoli risg yn gwbl effeithiol eto. Cynhaliwyd y broses o nodi, asesu ac adolygu risgiau corfforaethol fel ymarfer ar wahân i'r broses cynllunio strategol, felly mae'n bosibl nad yw'r risgiau a nodwyd yn rhan o'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn gwbl gyson â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli risg, ac mae'n cynnig cyfuno'r broses cynllunio strategol a'r broses rheoli risg. Bydd hyn yn golygu bod modd adrodd am gamau i liniaru risg yn rhan o'r AIB. Yn ddiweddar, datblygodd radar risg er mwyn rhoi crynodeb o'r darlun cyffredinol yn ôl risgiau ariannol, risgiau strategol, peryglon a risgiau gweithredol

**71.** Yn rhan o'm hymrwymiad i gynorthwyo i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'n rhaglen leol, a'r rhaglen orfodol genedlaethol o waith archwilio. Canfuwyd drwy'r gwaith hwn y cafwyd gwelliant yn ddiweddar i allu'r Ymddiriedolaeth i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion gwella. Mae dull mwy ffurfiol o fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio wedi cael ei roi ar waith, yn dilyn her gan gyfarwyddwyr anweithredol. Fodd bynnag, gall gymryd amser i dderbyn ymateb gan reolwyr i adroddiadau archwilio, ac i glirio'r adroddiadau hynny, oherwydd diffyg ymgysylltu a chapasiti ymhlith rheolwyr.

**72.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau uniondeb, megis Cofrestr Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch. Gofynnir am ddatganiadau buddiant ym mhob cyfarfod pwyllgor neu fwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd wedi ymrwymo i brotocol ar werthoedd ac ymddygiad.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei fframwaith rheoli perfformiad drwy wella'r trefniadau adrodd, er bod perfformiad yn erbyn targedau'n parhau i fod yn destun pryder sylweddol

**73.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n cynnwys IPR misol, adolygiadau chwarterol o berfformiad cyfarwyddiaethau ac adolygiad misol o berfformiad contractau. Mae'r IPR diweddaraf yn rhoi adroddiad cynhwysfawr ar berfformiad ar draws ystod lawn o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o wybodaeth reoli sydd wedi'i chyfleu'n glir a'i chefnogi gan grynodeb ar ffurf naratif. Gellid gwella'r drefn adrodd eto drwy gael mwy o feincnodi, rhagolygon cliriach o berfformiad ac adroddiadau mwy amserol, gan fod rhai mesurau a adroddir wrth y Bwrdd yn cyfeirio at berfformiad dri neu bedwar mis yn flaenorol. Wrth i'r Ymddiriedolaeth gytuno ar ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, dylid diwygio'r adroddiad ar berfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol.

**74.** Yn sgil cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r angen i wella perfformiad amseroedd ymateb ambiwlans, canolbwyntiwyd yn ddwys ar wella hynny dros yr haf. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithio â byrddau iechyd lleol i newid y modd o gyflenwi gwasanaethau, ee drwy gyflwyno swyddogion cyswllt ambiwlans ysbyty ym mhob ysbyty a threialu, mewn partneriaeth â sawl bwrdd iechyd lleol, gwasanaeth tacsi newydd i bobl nad oes angen ambiwlans arnynt. Gwelodd yr Ymddiriedolaeth welliant mewn amserau trosglwyddo ysbytai yn ystod yr haf, gyda'r ganran o drosglwyddiadau o fewn 15 munud yn 67.7 y cant ym mis Gorffennaf, ac yn 65.9 y cant ym mis Awst, o gymharu â chyfartaledd o 60.2 y cant ar gyfer y 10 mis blaenorol. Ers yr haf, fodd bynnag, mae canran y trosglwyddiadau o fewn 15 munud wedi gostwng i 59.2 y cant ar gyfer mis Hydref, sydd yn dal yn is na'r targed o 95 y cant. Mae'r perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb

Categori A, sef ymateb o fewn wyth munud, yn parhau i fod yn is na tharged Llywodraeth Cymru o 65 y cant, ar gyfartaledd o 56.2 y cant ar gyfer y flwyddyn hyd yma (Hydref 2014). Mae perfformiad newidiadau parhaol a sylweddol yn ddibynnol ar rai o'r cynlluniau tymor hwy a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith

**75.** Darparodd archwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Mai 2013 sicrwydd rhesymol ynghylch diogelu data. Yn yr adroddiad, nodwyd rhai meysydd lle cafwyd arfer da o fewn yr Ymddiriedolaeth, ee datblygu Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth mewn ardaloedd lleol ar draws yr Ymddiriedolaeth, Proses Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i dylunio'n dda a gwiriadau cydymffurfio rheolaidd. Ymhlith y meysydd a nodwyd i'w datblygu gan yr Ymddiriedolaeth yr oedd cyflenwi hyfforddiant gorfodol i'r staff ac adolygu rheolaethau mynediad yn rheolaidd. Mae'r PCA yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd ar statws llywodraethu gwybodaeth.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â llawer o'r meysydd eraill a nodwyd i'w datblygu yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae heriau'n bodoli o hyd

**76.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi dangos y cafwyd cynnydd gan yr Ymddiriedolaeth wrth ymdrin â meysydd i'w datblygu a nodwyd yng ngwaith blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal â'r cynnydd a ddisgrifir uchod, ee yn gysylltiedig â'r cyfyngiadau ar gapasiti ar lefel uwch, ceir crynodeb isod o gynnydd wrth roi pwyntiau gweithredu Asesiad Strwythuredig 2013 ar waith.

**77.** Yn ogystal â chryfhau capasiti rheoli ar lefel y Bwrdd ers y llynedd, mae uwch reolwyr hefyd yn cael eu cefnogi drwy'r broses o benodi penaethiaid gwasanaeth i rai swyddi sydd wedi bod yn wag ers tro, ee cynllunio a rheoli fflyd. Mae capasiti a gallu, y bu angen mawr amdano, wedi cael eu sicrhau ym maes rheoli rhaglenni a chynllunio strategol.

**78.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ddatblygu ei chynlluniau gweithlu i gefnogi newid a gwella perfformiad. Nid yw strategaeth gyfredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gweithlu'n gyfredol, gan ei bod yn ymwneud ag anghenion busnes cyfredol yn hytrach nag anghenion y dyfodol. Er mwyn llunio strategaeth ddiwygiedig, mae angen i gomisiynwyr bennu'r anghenion ar gyfer y dyfodol, ac mae'r gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae camau ar y gweill i gefnogi datblygiad y gweithlu yn y dyfodol.
Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau i lenwi bylchau hysbys ymhlith staff rheng flaen, a chynllun ar y gweill i recriwtio unigolion i'r swyddi hyn erbyn mis Ionawr 2015. Mae partner a chyllid wedi cael eu sicrhau i ddatblygu hyfforddiant uwchraddio sgiliau er mwyn i dechnegwyr gael troi'n barafeddygon.
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu nifer o bolisïau/weithdrefnau newydd, fel egwyl ar gyfer prydau, gweithio'n unigol, a newidiadau i'r rhestr dyletswyddau. Dylai'r polisïau diwygiedig ar gyfer y gweithlu gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r gweithlu, ond nid ydynt eto wedi'u gweithredu'n llawn, gan fod trafodaethau'n cael eu cynnal â chynrychiolwyr y staff. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar leihau lefelau uchel o salwch ymhlith y staff.

**79.** Yn unol â gofynion gweinidogion, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei pherthynas â byrddau iechyd lleol ymhellach drwy alinio portffolios ei chyfarwyddwyr anweithredol ag ardaloedd

byrddau iechyd lleol. Mae sefydlu'r fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau ambiwlans o gymorth i eglurhau perthnasoedd a chyfrifoldeb partneriaethau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi aeddfedu eto, felly ni ellir gweld pa fudd ddaw ohonynt. Yn sgil canolbwyntio'n ddwys ar berfformiad yr ymateb wyth munud Categori A dros yr haf, lle bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â sawl bwrdd iechyd lleol, cafwyd perfformiad gwell gan rai o'r byrddau iechyd lleol dros y misoedd hynny.

**80.** Yn adroddiad y llynedd, nodwyd bod angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn defnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth a data cleifion i bennu themâu sy'n dod i'r amlwg a gwneud defnydd pellach o'r wybodaeth i wella ansawdd gwasanaethau. Er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer dysgu yn sgil adborth defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Dysgu Sefydliadol. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti, nid yw'r Grŵp wedi cyfarfod mor aml â'r disgwyl, felly mae'n rhy fuan i asesu ei effaith.

**81.** Nodai ein hadroddiad yn 2012 y gallai'r Ymddiriedolaeth wella ei hadroddiadau i is-bwyllgorau a'r Bwrdd drwy gynnwys mwy o gymariaethau ag ymddiriedolaethau ambiwlans eraill, a thrwy sicrhau bod data ar berfformiad yn cael eu hadrodd mewn modd mwy amserol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwella'n sylweddol ei threfniadau i adrodd ar berfformiad yn ei AIB, ceir prinder gwybodaeth gymaradwy o hyd ac mae peth data'n trafod perfformiad a gafwyd dri i bedwar mis yn ôl.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r risgiau strategol allweddol sy'n deillio o Raglen Ddiwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans, ond mae ganddi fwy o waith i'w wneud er mwyn pennu'r risgiau gweithredol yn llawn a'r camau i'w lliniaru

**82.** Wrth adolygu'r trefniadau sydd ar waith yn yr Ymddiriedolaeth i asesu'r risgiau'n deillio o Raglen Diwygio'r Gwasanaethau Ambiwlans, canfûm fod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r risgiau strategol allweddol sy'n deillio o'r Rhaglen, a'i bod yn datblygu camau lliniaru i leihau llawer o'r risgiau hyn hyd yr eithaf. Nid oes proffil penodol i weithgareddau'r Rhaglen Diwygio o fewn yr Ymddiriedolaeth, gan eu bod wedi'u hintegreiddio i fusnes a rhaglenni trawsnewid presennol. Wrth gynnal fy adolygiad ym mis Mehefin 2014, roedd gan yr Ymddiriedolaeth fwy o waith i'w wneud er mwyn pennu'n llawn y risgiau gweithredol a ddeilliai o'r Rhaglen, ac yr oedd yn dal heb ddatblygu mecanweithiau monitro seiliedig ar dystiolaeth i roi sicrwydd iddi fod y camau y mae'n eu cymryd i liniaru risgiau'n cael effaith. Ers yr adolygiad, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar strategaeth rheoli risg ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid fydd yn amlinellu'r dull o nodi a rheoli risgiau a phroblemau. Mae cofrestr risg ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Strategol bellach ar waith hefyd. Rwyf wedi cyflwyno argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ynghylch pennu a rheoli'r risgiau'n gysylltiedig â Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Ambiwlans, a byddaf yn monitro cynnydd wrth weithredu'r rhain yn ystod 2015.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | 29 Mai 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 24 Mehefin 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | 10 Medi 2014 |
| Datganiad Sicrwydd Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 21 Awst 2014 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Elusennol Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru | Tachwedd 2014 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2014 | Rhagfyr 2014 |
| Rheoli Risgiau Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Ambiwlans | Mehefin 2014 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2014 | Ebrill 2014 |

Ar hyn o bryd, mae'r tîm archwilio lleol yn trafod blaenoriaethau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad pellach gyda'r Ymddiriedolaeth. Bydd y rhain wedi'u hadlewyrchu yn yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2015.

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Yn Amlinelliad o Waith Archwilio 2014, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £129,750 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, yn seiliedig ar y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014, nodwyd y risgiau archwilio ariannol o bwys ar gyfer 2014.
Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio o bwys | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol (ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. | Rydym wedi:<br>• Dogfennu a phrofi'r rheolaethau awdurdodi ar gyfer cofnodion mewn dyddlyfrau.<br>• Adolygu a phrofi cofnodion dyddlyfrau drwy ddefnyddio technegau archwilio drwy gymorth cyfrifiaduron er mwyn canfod unrhyw drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu drafodion anarferol. Ni chanfuwyd unrhyw drafodion o bwys y tu allan i'r busnes arferol.<br>• Rydym wedi adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu (ee, darpariaethau) er mwyn canfod arwyddion o duedd.<br>Ni chanfuwyd unrhyw broblemau wrth gyflawni ein gwaith archwilio. |

| Risg archwilio o bwys | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld diffyg o £0.5 miliwn ar gyfer 2013-14. Mae deddfwriaeth yn gofyn bod ymddiriedolaethau'r GIG yn mantoli'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol. Y diffiniad ar gyfer hyn yw bod oddi mewn i drothwy materoldeb o £0.5 miliwn neu 0.5 y cant o incwm gweithredu. Os bydd yr Ymddiriedolaeth oddi mewn i'r terfyn materoldeb hwn, ni chaiff y ddyletswydd statudol ei thorri os caiff unrhyw ddiffyg ei adennill drwy danwariant tebyg yn 2014-15. Gallai'r sefyllfa hon effeithio ar fy marn ynghylch rheoleidd-dra.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y corff yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i gyrraedd y targed pwysig o fantoli'r gyllideb.<br>Gallai pwysau ariannol parhaus hefyd effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i adfer y diffyg i'r gyllideb yn 2014-15. | Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu rhagolygon 2014-15 er mwyn asesu cadernid rhagolygon i adennill diffyg 2013-14.<br>Bydd fy nhîm archwilio hefyd yn canolbwyntio ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai ddangos tuedd wrth adrodd. | Rydym wedi adolygu rhagolygon ariannol i adennill y diffyg yn 2014-15.<br>Gwnaethom hefyd adolygu a phrofi'r maes barnu allweddol, hy, darpariaethau ar gyfer arwyddion o duedd wrth reoli.<br>Ni chanfuwyd unrhyw broblemau wrth gyflawni ein gwaith archwilio. |
| Ceir risg na fydd yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio ag ISA 27 *Datganiadau Ariannol Cyfunol ac ar Wahân* (Gweler Arddangosyn 4 am fanylion). | Bydd fy nhîm archwilio'n trafod gofynion cyfrifyddu ISA 27 gyda swyddogion er mwyn sicrhau dealltwriaeth ohonynt, ac yn cysylltu â thîm archwilio Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau a chytuno ar y gofynion ar gyfer 2013-14. | Mae gan yr Ymddiriedolaeth gronfa elusennol, ac fel yr unig Ymddiriedolwr ar ei chyfer, tybir mai'r Ymddiriedolaeth sy'n ei rheoli. Tybiwyd nad oedd y gronfa elusennol yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth, ac felly ni chafodd ei chynnwys yn natganiadau ariannol 2013-14. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk